# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR EBRILL 2il, 2024

## Yn NEUADD BENTREF FFOSTRASOL am 7.30 y.h.

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol** | Cyng. Ceri Jones (cadeirydd) | Cyng. Maldwyn Lewis |
| | Cyng. Emyr Jones | Cyng. Mark Davies |
| | Cyng. Sian Williams | Cyng. Sharon Thomas |
| | Cyng.Teifi Evans | Cyng. Rob Jones |
| | Cyng Roger Davies | |

**Clerc** Rhian Jones

( Mae angen tynnu allan y paragraff ar yr Agenda sy'n cynnig i aelodau'r cyhoedd ymuno mewn cyfarfodydd – caiff ei ychwanegu at ein adroddiad blynyddol.)

**1 . Ymddiheuriadau**

- Cyng. Carol Davies a'r Cyng. Llyr Evans.

.

**2. Datgan Diddordeb**

**3. Cofnodion**

**3.1 -** Derbyniodd bawb gopi o gofnodion mis Mawrth a chynigiodd y Cynghorydd Mark Davies eu bod yn gywir ac eiliwyd gan y Cynghorydd Teifi Evans.

**4.Materion yn Codi o'r Cofnodion**

4.1 – Siomedig oedd ymateb i'r cwrs De-fib a gynigiwyd ym mis Mawrth, ond efallai oherwydd ei fod yr un noson a (Dechrau Canu, Dechrau Canmol) – y gobaith yw ail drefnu ar gyfer nos Fawrth, Mai 14eg.

4.2 – Mae copi o luniau T Llew Jones sydd angen yng Nghoedybryn gan Mrs Owenna Davies.

4.3 – Ni chafwyd amser i roi Office 365 ar gluniadur y Clerc yn ein cyfarfod diwethaf oherwydd diffyg amser. Fe wnawn drio tro nesaf yng Nghoedybryn os fydd y Wi-Fi wedi cyrraedd y neuadd erbyn mis Mai.

4.4 –Dangosodd y De-fib sbar sydd gan y Cadeirydd fod nam arno. Anfonwyd ef yn ol at Calon Hearts, ac o fewn dyddiau roedd De-Fib newydd wedi cael ei anfon ato.

4.5 - Mae angen rhoi llinellau dwbl melyn nol ar sgwar Coedybryn.

**5. Materion y Cynghorydd Sir.**

DIM

**6.Gohebiaeth**

6.1 – Eisteddfod Rhondda Cynnon Taf – holi am gyfraniad. Bydd angen llenwi'r ffurflenni priodol.

6.2 – Hysbysiad am 'Dechrau Canu, Dechrau Canmol' Sioe'r Cardis yng Nghapel Glynarthen.

6.3 – Celia Richardson o Gyngor Cymuned Llandysiliogogo wedi holi i ni ymuno a nhw ar gyfer partneriaeth dod a Fibre i'r ardal. Efallai byddai modd holi Gavin o Openreach i ymuno a ni mewn cyfarfod er mwyn cael manylion pellach.

6.4 – Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Wendy Organ am ein cyfraniad o £300 at Neuadd Coedybryn.
6.5 Mae llythyr i adnewyddu ein contract gyda Un Llais Cymru wedi ei dderbyn. Cytunodd pawb i gario ymlaen gyda'r gwasanaeth.
6.6 – Cronfa cyfle i bawb – yr Urdd ar ffurf poster.
6.7 - Adroddiad am Ysgol Gymunedol Cei Newydd.
6.8 – Gwybodaeth am ddyddiadau cyrsiau sydd ar y gorwel.
6.9 – Derbyniwyd pennillion am Bwcabys gan Judy Lawton.
6.10 – Ymatebodd Elin Jones i'r e-bost am Bwcabys ac mae nhw mewn cysylltiad gyda Dolen Teifi i geisio creu cysylltiad newydd gyda rhai ardaloedd yn y gymuned.
6.11 – Derbyniwyd pris gan Gary Morgan am greu hysbysfwrdd newydd yn Ffostrasol. £590 + Vat
Mae rhai tebyg ar greenbands.co.uk rhwng £1400-£1700
Nodwyd bydd angen symud lleoliad yr hysbysfwrdd a bydd angen i Gary ei greu a'i leoli. Angen gwneud siwr o'r mesuriadau oherwydd byddai cael un ychydig yn fwy yn fanteisiol – efallai i ddal tua 6 tudalen A4.
6.12 – Derbyniwyd llythyr o ymddiswyddiad gan y Cynghorydd Roger Davies.Bydd yn ymddiswyddo o'r rol ar ddiwedd Ebrill. Mae wedi bod yn aelod pwysig o'r Cyngor ers 8 mlynedd bellach a bydd colled ar ei ol.
6.13 – Derbyniwyd llythyr o ymddiswyddiad gan y Clerc.

**7.Cynllunio**
DIM

**8. Cyllid**

Cytunodd pawb i dalu'r sieciau ac arwyddwyd gan y Cynghorwyr Rob Jones a Roger Davies.

| | | |
|---|---|---|
| Un Llais Cymru - £114 a £228 | **001751** | **001753** |
| Cyflog y Clerc - £257.98 | **001750** | |
| HMRC - £64.40 | **001752** | |

**9.Meinciau**

9.1 – Mae'r meinciau wedi cyrraedd.
9.2 – Bydd angen i'r Cyng.Teifi Evans dwtio'r cerrig ar ei wal fydd tu ol un o'r meinciau ger Eglwys Troedyraur.
9.3 – Mae problem wedi codi gyda mainc Bwlchygroes. Rhaid cysylltu gyda Estates a llenwi ffurflen i gael caniatad i osod y fainc ar y borfa. Ail feddwl am y lleoliad ac efallai byddai modd eu gosod yn lle un sydd wedi dirywio yn Rhydlewis. Mae hon wedi bod yno ers blynyddoedd ac angen adnewyddu neu ail-osod un newydd yn ei lle. Bydd angen holi a gweld sut mae modd sicrhau na fydd neb yn eu dwyn.

**10. System Hybrid**

10.1 – Byddai y system OWL yn gallu pigo pawb i fyny ond byddai'r gost oddeutu £2,700 ac hefyd byddai angen taliadau blynyddol yn ychwanegol i'r gost gychwynnol.
Soniwyd fod rhai pwyllgorau yn cwrdd ar Zoom a Teams -byddai hyn yn rhatach ac ni fyddai rhaid cael camera, ond fod y sain yn dod trosodd.
Mae Jabra yn system dda arall sy'n cael ei ddefnyddio ac sy'n cysylltu gyda'r cluniadur ac yn codi'r sain. Cost hwn yw tua £80. Cytunodd y Cynghorwyr Mark Davies a Teifi Evans y dylem gael y sytem hon.

10.2 – Byddai angen Wi-Fi yn y tri lleoliad a soniwyd fod ar gael yn festri Bwlchygroes. Efallai byddai modd newid lleoliad os fydd angen yn y dyfodol.
10.3 – Nodwyd fod angen rhyw fath o system hybrid arnom, ac bydd caniatad i'r cyhoedd ymuno os am drafod rhywbeth i roi ar yr Agenda ( ond angen 7 diwrnod o leiaf o rybudd.) Mae hawl i'r cyhoedd ymateb i beth sydd ar yr Agenda am 10 munud yn unig ar ddechrau ein cyfarfodydd misol. Soniwyd am holi Dafydd Morgan sy'n gweithio i Geredigion os fyddai modd iddo ymuno a ni mewn cyfarfod i drafod opsiynau.

**11. Cadwyn y Cadeirydd**

11.1 – Y Cadeirydd Ceri Jones wedi bod gyda David Evans o Aberteifi, ac mae wedi cael pin badges newydd i rhoi enwau arnynt. Y pris cychwynnol oedd £110 yr un, ond gyda chwmni arall llwyddodd i gael rhai am £15 yr un. Archebwyd 4 yn barod. Oherwydd fod eu pris yn codi ac maent yn bethau sy'n prinhau, penderfynnwyd archebu 10 arall. ( Mae 2 sbar gyda ni eisoies ond gyda 10 arall byddwn yn iawn am y 12 mlynedd nesaf.
11.2 - Bydd angen siec ar y Cadeirydd i dalu am y rhai mae eisoies wedi brynnu, sef £61.80, a gobeithio bydd y 10 arall gyda ni erbyn y cyfarfod nesaf.
11.3 – Holwyd am werth y gadwyn – yr unig werth yw sentimental a'r gwerth amnewid. Tybiwyd y byddai hyn tua £4,000

**12. Diweddariad yr Awdit**

12.1 – Derbyniwyd ymateb wrth Deryck. Mae angen manylion o Ebrill 1af 2017 hyd Mawrth 31ain, 2022, gan gynnwys – Cashbook, Manylion bancio misol, anfonebau a chofnodion ac anfon nhw at Audit Wales. Deallodd y Cynghorwyr oedd yn eu rol ar y pryd eu bod wedi methu danfon y wybodaeth at Audit Wales.
12.2 – Byddai'n syniad cael cwrdd lan gyda Gwyn i'n helpu gyda'r sefyllfa hon. Y Clerc i gysylltu gyda Gwyn i holi pa wybodaeth mae angen a phwy hoffai gwrdd a nhw.

**13. - Adrodd nol o Modiwl 2**

13.1 – Mynychodd y Cynghorwyr Mark Davies, Ceri Jones a Sian Williams yr hyfforddiant yn ystod y mis hwn.
13.2 – Codwyd fod gan pob Cynghorydd hawl i dal o £158 os nad ydynt wedi anfon llythyr i dynnu allan. Mae ganddynt hefyd yr hawl i dal am deithio i gyfarfodydd.
13.3 – Mae'r Code of Conduct yn bwysig ac yno i'n cefnogi. Hyfforddiant gwerth chweil i bawb.
13.4 – Mewn llawer o ardaloedd - y Clerc sy'n gyfrifol am redeg eu tudalen Facebook a nodwyd y byddai hyn yn bwysau ychwanegol ar waith y Clerc yn fisol.
13.5 – Mae'r Cynghorwyr yn cael eu ail-hethol bob 5 mlynedd ac mae rhaid i bawb arwyddo 'Decloration of Acceptance' pan yn dod yn Gynghorwyr.
13.6 – Os na fydd Cynghorydd wedi mynychu cyfarfod am 6 mis, rhaid iddynt gael eu di-swyddo o'r rol.
13.7 – NI ddylai'r Cynghorwyr na'r Clerc ddefnyddio e-bost personnol.

**14. Adroddiad Blynyddol**

14.1 – Y Cadeirydd Ceri Jones wedi cysylltu gyda Un Llais Cymru droeon a thipyn o amser wedi mynd cyn iddo gael ymateb. Byddai templed wrth Un Llais Cymru wedi bod yn fuddiol, ond nid oedd dim ar gael, dim ond esiamplau o rhai cymunedau eraill.
14.2 – Diolchodd y Cyng. Mark Davies i'r Cadeirydd Ceri Jones am eu oriau o waith caled wrth fynd ati i greu'r Adroddiad hwn.
14.3 – Bydd angen cyfieithu'r Adroddiad hwn ar ol y cyfarfod nesaf – a soniwyd am holi Llinos i wneud y gwaith.

14.4 – Rydym wedi addo rhoi £1000 tuag at adnewyddu llwybrau cerddel lleol. Caiff hwn ei roi ar daliadau mis nesaf.

**15. Materion Ardal**

15.1 – Coedybryn – Bu gwerthiant planhigion yn Eglwys Llangynllo yn ddiweddar a bu'n llwyddiant mawr.
15.2 – Croeslan -mae'r clawdd dal angen ei dorri ac mae pobl yn parhau i gerdded o Croeslan tuag at Bwlchygroes, sy'n ffordd beryglus gyda llawer o draffig.
15.3 –Ffostrasol – mae'r twll yn parhau ar y droad tuag at Penrhiwpal ac mae'r con yn dal dros y twll ar bwys Bryn Hyfryd.
15.4 - Rhydlewis – Tyllau yn y ffordd tu allan Garreg Lwyd SA44 5RE, ac mae'r ffordd yn suddo yn raddol rhwng Mark Webb y Cigydd a'r Capel.
15.5 – Llongyfarchiadau i dim rygbi hyn Ysgol Bro Teifi ar ennill cystadleuaeth y plat yn Principality yn erebyn Ysgol Bro Pedr. Roedd cynrychiolaeth ifanc wych o ardal y Sgarlets yn y gemau terfynnol – braf cael rhoi y Gorllewin ar y map.
15.6 – Pob Lwc i'r bobl ifanc lleol fydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd.
15.7 – Fel Cyngor Cymuned – hoffem estyn cydymdeimlad gyda theulu Llyr Davies o Aberporth a oedd yn ddisgybl yn Ysgol Bro Teifi. Braf gweld cymuned glos cefn gwlad yn tynnu at eu gilydd mewn cyfnod o dristwch.
15.8 –Llongyfarchiadau i dim pel dreod Ffostrasol ar ennill y Cwpan yng nghystadleuaeth Llun y Pasg yn erbyn Felinfach. Dyma'i trydydd buddigoliaeth yn olynnol.

**16. Cyfarfod Nesaf**

16.1 – Cynhelir y Cyfarfod nesaf yn Neuadd Coedybryn ar Fai 7fed - yr AGM am 7:30 o'r gloch ac yna'r cyfarfod misol i ddilyn.

16.2 – Bydd angen penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd newydd.

16.3 - Gan nad oedd dim ymhellach i drafod, tynnod y Cadeirydd y cyfarfod i ben am

10:15 yh

Cytunwyd fod y cofnodion yma'n gywir.

--------------------------------------------------------- -------------------------------------------------

Arwyddwyd ( y Cadeirydd ) Dyddiad